# Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

# Sut i lenwi'r Canllaw i Wybodaeth i Ysgolion

**Sylwch: bwriad templed y canllaw yw helpu ysgolion bach (yn enwedig ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin) i gyflawni eu rhwymedigaethau o ran cynllun cyhoeddi.**

## Rhagymadrodd

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus (gan gynnwys ysgolion) fabwysiadu a chynnal cynllun cyhoeddi. Yn 2008 newidiodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) y pwyslais o ran cymeradwyo a gweithredu cynlluniau cyhoeddi, sef newid i fodel cyffredinol, o 1 Ionawr 2009 ymlaen.

Mae'r model hwnnw'n rhwymo awdurdod cyhoeddus i *'lunio a chyhoeddi dull ar gyfer trefnu bod yr wybodaeth benodol ar gael er mwyn iddi gael ei hadnabod a'i gweld yn rhwydd gan aelodau'r cyhoedd'.* I helpu ysgolion o bob maint i gyflawni'r rhwymedigaeth hon, rydyn ni wedi llunio templed o ganllaw i wybodaeth i gael ei ddefnyddio gan ysgolion bach. Y bwriad yw iddo fod o gymorth yn arbennig i ysgolion cynradd ac ysgolion meithrin. Oherwydd hyn, mae'r trothwy ynglŷn â gwariant yn y Canllaw hwn i Wybodaeth yn is nag yn y brif ddogfen o ddiffiniadau i ysgolion. Er hynny, caiff ysgol o unrhyw faint ddewis defnyddio naill ai'r ddogfen o ddiffiniadau neu'r Canllaw i Wybodaeth.

Erbyn hyn, rydyn ni wedi diweddaru'r Canllaw i Wybodaeth. Y canllaw a'r cynllun enghreifftiol ei hun yw sylfaen ymrwymiad yr ysgolion gan ddechrau chwe mis ar ôl y dyddiad y daw'r templed newydd i rym. Serch hynny, mae'r darpariaethau ynghylch setiau data (gweler isod) yn gymwys o 1 Medi 2013 ymlaen.

**Bydd ysgol yn torri'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth os na fydd wedi mabwysiadu'r cynllun enghreifftiol neu os na fydd yn cyhoeddi yn unol ag ef.**

Bwriad y cynllun enghreifftiol yw cynnwys yr holl awdurdodau cyhoeddus ac mae modd dod o hyd iddo ar wefan yr ICO. Rhaid iddo gael ei fabwysiadu'n llawn, heb ei olygu, a'i hyrwyddo ochr yn ochr â'r Canllaw i Wybodaeth. Does dim rhaid i'r ysgolion roi gwybod i'r ICO eu bod nhw wedi mabwysiadu'r cynllun; byddwn yn cymryd eu bod nhw wedi gwneud, oni bai ein bod yn clywed yn wahanol.

**Yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Canllaw i Wybodaeth**

Mae'r templed yn rhestru'r wybodaeth ym mhob dosbarth a ddylai yn ein barn ni fod gan yr ysgolion a chael ei darparu. Ar ôl ei lenwi, bydd y templed yn rhestr o'r holl wybodaeth y bydd yr ysgol yn trefnu ei bod ar gael fel rhan o'r drefn, gan esbonio sut i'w gweld ac a oes tâl yn cael ei godi amdani neu beidio. Rhaid i'r ysgolion:

- dweud sut mae cael gafael ar yr wybodaeth benodol ac a oes yna gost.

- llenwi'r colofnau perthnasol yn nhempled y canllaw.

- sicrhau bod y cyhoedd yn gallu gweld y canllaw ar ôl iddo gael ei lenwi ynghyd â'r wybodaeth sydd wedi'i rhestru ynddo.

Yn yr un modd â dogfen y cynllun enghreifftiol ei hun, does dim rhaid i'r canllaw gael ei gymeradwyo gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

Bwriad y canllaw yw helpu ysgolion drwy roi enghreifftiau o'r math o wybodaeth y bydden ni'n disgwyl iddyn nhw ei darparu er mwyn cyflawni eu hymrwymiadau o dan gynllun cyhoeddi enghreifftiol y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Dylai'r ysgolion nodi nad oes disgwyl iddyn nhw gyhoeddi'r holl wybodaeth fel rhan o'r drefn; er enghraifft, os nad yw'r wybodaeth ganddyn nhw neu os yw ar gael yn gyhoeddus rywle arall neu os yw'n esempt. Mae rhestr o'r amgylchiadau hyn i'w gweld isod.

Rydyn ni'n disgwyl i'r ysgolion drefnu bod yr wybodaeth yn y canllaw ar gael, oni bai:

- nad yw'r wybodaeth ganddyn nhw;
- bod yr wybodaeth yn esempt o dan un o esemptiadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r eithriadau yn Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR), neu fod statud arall yn gwahardd ei rhyddhau;
- bod yr wybodaeth ar gael yn rhwydd ac yn gyhoeddus ar wefan allanol; gallai gwybodaeth o'r fath fod wedi'i rhoi naill ai gan yr ysgol neu ar ran yr ysgol. Rhaid i'r ysgol ddarparu dolen i gysylltu'n uniongyrchol â'r wybodaeth;
- bod yr wybodaeth wedi'i harchifo, wedi mynd yn hen neu yn amhosibl ei chyrchu am ryw reswm arall; neu

- am y byddai'n anymarferol paratoi'r deunyddiau i'w rhyddhau fel rhan o'r drefn, neu'n rhy drwm o ran adnoddau i wneud hynny.

Os awdurdod cyhoeddus arall yn unig sydd â'r wybodaeth, dylai'r ysgol roi manylion am ble i gael gafael arni.

**Llenwi'r colofnau**

Rydyn ni'n sylweddoli nad yw pob ysgol yr un faint â'i gilydd, nac yn cyflawni'r un swyddogaethau.  Oherwydd hynny, os oes gan ysgol fwy o wybodaeth nag sydd wedi'i rhestru, ac os gall drefnu bod yr wybodaeth ar gael fel rhan o'r drefn, yna gall hynny gael ei ychwanegu. Yn yr un modd, os nad oes gwybodaeth sydd wedi'i rhestru yn cael ei chadw, gall gael ei dileu (neu gellir tynnu llinell drwyddi) er y dylai'r ysgol gadw nodyn i ddweud pam nad yw'r wybodaeth ar gael.

**Enghraifft:**

| | | |
|---|---|---|
| Cylchlythyrau ac offerynnau statudol am y cwricwlwm | **Gwefan**<br>www.school.sch.uk/cc/docs<br><br>**Copi caled**<br>Cysylltwch â'r ysgrifenyddes | Am ddim<br><br><br>10c y ddalen |
| ~~Log datgeliadau~~ | | |
| Cofrestr o asedau | Drwy ei harchwilio yn unig | Am ddim |

Yn yr enghraifft yma, byddai'r ysgol yn trefnu bod gwybodaeth am gylchlythyrau ac offerynnau statudol ynglŷn â'r cwricwlwm ar gael ar ei gwefan yn ddi-dâl, yn ogystal ag ar ffurf copi caled. Drwy fynd i edrych arnyn nhw yn unig y mae'r cofrestrau o asedau ar gael. Does gan yr ysgol ddim log datgeliadau ar hyn o bryd, ond pe bai'r ysgol wedi cael ceisiadau rhyddid gwybodaeth o'r blaen, byddai'n syniad da llunio cofnod, yn ein barn ni.

**Dull cyhoeddi**

Mae'n bwysig bod ysgolion yn trefnu ei bod mor hawdd â phosibl gweld yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y cynllun.

| Os nad oes gan yr ysgol wefan |
| --- |
| Dylid sicrhau bod dogfen y cynllun enghreifftiol a’r Canllaw i Wybodaeth ar gael mor eang ag y bo modd, er enghraifft ar hysbysfyrddau.<br>Trefnir bod y rhan fwyaf o’r wybodaeth ar gael ar ffurf copi caled gan yr ysgol (sy’n gorfod rhoi manylion cysylltu priodol). |
| **Os oes gan yr ysgol wefan** |
| Dylid sicrhau bod dogfen y cynllun enghreifftiol, y Canllaw i Wybodaeth a rhan fawr o’r wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn y cynllun ar gael ar y wefan. Dylid trefnu bod gwybodaeth ar gael ar gopi caled hefyd, os oes angen hynny.<br><br>O dan amgylchiadau eithriadol, gall fod angen i’r ysgolion ddarparu gwybodaeth drwy ddulliau fel caniatáu ymweliadau â’r ysgol. Dylid egluro sut i drefnu hyn. |

## Setiau data: cyhoeddi setiau data i’w hailddefnyddio

Mae’n bosibl na fydd y darpariaethau ynghylch setiau data yn berthnasol i bob ysgol fach, ond mae angen iddyn nhw fod yn ymwybodol ohonyn nhw ac mae’n rhaid cydymffurfio â nhw pan fo’n briodol.

O dan eu cynllun cyhoeddi, mae’n rhaid i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion, gyhoeddi unrhyw set ddata sydd ganddyn nhw ac y cafwyd cais amdani, ynghyd ag unrhyw fersiynau sydd wedi’u diweddaru, oni bai bod yr ysgol yn fodlon nad yw’n briodol gwneud hynny. Cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol, rhaid cyhoeddi’r set ddata ar ffurf electronig sy’n gallu cael ei hailddefnyddio.

Os yw’r set ddata neu unrhyw ran ohoni’n waith sydd o dan hawlfraint ac os awdurdod cyhoeddus yw’r unig berchennog, mae’n rhaid i’r awdurdod cyhoeddus drefnu ei bod ar gael i’w hailddefnyddio o dan delerau trwydded benodedig. Nid yw setiau data lle mae’r hawlfraint neu freintiau’r set ddata yn perthyn i’r Goron yn weithiau hawlfraint perthnasol.

Mae'r Cod Ymarfer ynghylch Setiau Data yn argymell bod awdurdodau cyhoeddus yn trefnu bod setiau data ar gael i'w hailddefnyddio o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Mae'r term 'set ddata' wedi'i diffinio yn adran 11(5) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r termau 'gwaith hawlfraint perthnasol' a 'trwydded benodedig' wedi'u diffinio yn adran 19(8) o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r ICO wedi cyhoeddi canllawiau ar y darpariaethau ar setiau data yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae'r rhain yn esbonio ystyr "nad yw'n briodol" a "sy'n gallu cael ei hailddefnyddio".

## Ffioedd a chodi tâl

Dylai'r wybodaeth sydd ar gael drwy gynllun cyhoeddi ysgol fod ar gael i'r cyhoedd yn rhwydd a hynny am gost fach neu yn rhad ac am ddim. Os bydd ysgol yn codi tâl am yr wybodaeth, rydyn ni'n disgwyl i'r taliadau fod yn bosibl eu cyfiawnhau, yn glir, ac mor isel ag y bo modd. Ni ddylai gwybodaeth gael ei darparu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth er mwyn creu elw.

Caniateir i daliadau gael eu codi am waith fel argraffu, llungopïo a phostio yn ogystal ag am wybodaeth y mae gan yr ysgol awdurdod cyfreithiol i god tâl amdani. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw dâl i'r sawl sy'n gwneud cais am wybodaeth cyn i'r wybodaeth gael ei rhoi. Caiff yr ysgolion ofyn am y taliad cyn darparu'r wybodaeth.

Os yw'r ysgol yn codi tâl am drwyddedu setiau data i gael eu hailddefnyddio, dylai ddweud yn y Canllaw i Wybodaeth sut mae'r tâl wedi'i gyfrifo ac a yw'r tâl yn cael ei godi o dan y Rheoliadau Ffioedd Ailddefnyddio ynteu o dan ddeddfwriaeth arall. Chaiff yr ysgol ddim codi ffi am ailddefnyddio'r setiau data os yw'n trefnu eu bod ar gael i'w hailddefnyddio o dan y Drwydded Llywodraeth Agored.

Dylai'r union daliadau gael eu cofnodi yn y golofn yn y Canllaw i Wybodaeth. Mae rhestr o daliadau ynghlwm wrth y templed a dylai hon gael ei defnyddio i nodi ar ba sail y mae'r tâl yn cael ei godi. Mae rhagor o fanylion ar gael mewn canllawiau ar ein gwefan, ynghylch codi tâl am yr wybodaeth mewn cynllun cyhoeddi.

**Enghraifft:**

| | | |
|---|---|---|
| Adroddiad Blynyddol | **Gwefan**<br>www.school.sch.uk/report<br><br>**Copi caled**<br>Cysylltwch â'r ysgrifenyddes | Am ddim<br><br><br>£2 |

| | | |
|---|---|---|
| Strwythur staffio | **Gwefan**<br>www.school.sch.uk/staffing<br><br>**Copi caled**<br>Cysylltwch â'r ysgrifenyddes | Am ddim<br><br><br>10c y ddalen |

Mae gan yr ysgol yn yr enghraifft yma wefan ac felly mae'n gallu trefnu bod gwybodaeth ar gael ar-lein heb gost. Yn achos copïau caled, y cyfan y mae'n ei godi yw'r costau sydd wedi'u hysgwyddo mewn gwirionedd. Os gofynnir iddi, mae'n rhaid i'r ysgol allu cyfiawnhau pam mae wedi cyfrifo'r tâl yn 10c y ddalen neu £2 am yr adroddiad.

**Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'r cynllun cyhoeddi**

Mae'n bwysig bod cynllun cyhoeddi'n nodi'r wybodaeth sydd ar gael fel rhan o'r drefn, a hynny yn unig. Mae'n dal yn bosibl i rywun wneud cais am wybodaeth sydd heb gael ei rhestru yn y Canllaw i Wybodaeth, a dylech drefnu bod yr wybodaeth honno ar gael oni bai ei bod yn gyfreithlon ichi ei chadw yn ôl.

**Rhagor o wybodaeth**

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am hyn neu gymorth ynglŷn ag unrhyw agwedd arall ar ryddid gwybodaeth, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â ni.

Ffôn: 0303 123 1113
01625 54 57 45
E-bost: defnyddiwch y ffurflen ymholi ar-lein ar ein gwefan

Gwefan: www.ico.gov.uk